**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **CYNGOR SIR ARBENNIG** |
| **DYDDIAD:** | **3 MAI 2012** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **PWRCASU CONTRACT CYNNAL A CHADW TIROEDD ADDYSG A HAMDDEN** |
| **PWRPAS:** | **EGLURO'R SEFYLLFA** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH GWASANAETH (PRIFFYRDD A RHEOLI GWASTRAFF) AR RAN Y GWASANAETH PRIFFYRDD A RHEOLI GWASTRAFF A'R GWASANAETH ADDYSG** |
| **GWEITHREDU:** | **YSTYRIED YR ADRODDIAD** |

## 1.0 CEFNDIR

Mae'r Gwasanaeth Priffyrdd a Rheoli Gwastraff yn rheoli, yn arolygu ac yn pwrcasu dau gontract cynnal a chadw tiroedd o fewn y gwasanaeth h.y. torri gwair trefol a gwledig. At hyn, mae'r gwasanaeth wedi bod yn gyfrifol am bwrcasu dau gontract cynnal a chadw tiroedd eraill ar ran y Gwasanaethau Tai ac Addysg. Mae'r ddau gontract hyn wedyn yn cael eu rheoli a'u harolygu gan y gwasanaethau unigol hynny.

Rhai o'r gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys o fewn y contract Cynnal a Chadw Tiroedd yw torri gwair, lladd chwyn, torri gordyfiant yn ôl a marcio caeau chwarae i Addysg a Hamdden.

Daeth y pedwar contract cynnal a chadw i ben ddiwedd mis Mawrth, ac wedi hynny fe dendrwyd contractau newydd am 6 blynedd gydag opsiynau i ymestyn hyd at bedair blynedd. Penderfynwyd cadw'r pedwar contract unigol yn hytrach na thendro un contract mawr, oherwydd bod y contractau'n gofyn am gael gwahanol fathau o beiriannau torri ac er mwyn rhoi gwell cyfle i gontractwyr llai fod yn llwyddiannus yn y broses bwrcasu.

## 2.0 Y SEFYLLFA GYFREDOL

Mae contract cyfredol ar gyfer cynnal a chadw tiroedd Addysg a Hamdden yn cael ei weithredu gan Cyngor Sir Gwynedd sy'n cyflogi 5 o weithredwyr ar y contract. Mae hawliau cyflogaeth y gweithredwyr hyn wedi'u diogelu gan Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth), ac felly byddant yn cael eu trosglwyddo i'r contractwr llwyddiannus ar ddiwedd y contract.

Cyn hyn, roedd rhaid i'r contractwr dorri'r gwair pan oedd yn fwy na 50mm ac roedd yna nifer o gwynion mewn gwahanol ysgolion ynglyn â'r mater hwn. Mae'r manylion bellach wedi'u newid fel bod y contractwr yn torri gwair bob pythefnos yn ystod y tymor tyfu a bod Rheolwr Safle Ysgolion Uwchradd a'r Prifathro/Prifathrawes yn yr Ysgolion Cynradd yn arwyddo ffurflen i gadarnhau i'r ymweliad ddigwydd, yn yr un ffordd ag ar gyfer lladd chwyn/plannu ac ati.

Gosodwyd Dangosyddion Perfformiad o fewn y contract er mwyn monitro ansawdd, cwblhau'r gwaith mewn pryd ac iechyd a diogelwch, gyda thaliadau bonws o £250/y mis yn bosibl.

Cyflwynodd Cyngor Gwynedd dendr cyn-cymhwyso ar gyfer y contract tymor cynnal a chadw tiroedd newydd, ond ni roddwyd ef ar y rhestr fer.

Dywedwyd wrth benaethiaid bob ysgol gan Bennaeth y Gwasanaeth Addysg y byddai'r contract cynnal a chadw tiroedd yn mynd allan i dendr gan roi iddynt ddigon o amser i eithrio allan o'r contract.

## 3.0 <u>PROSES DENDRO CYN-CYMHWYSO</u>

Roedd pob un o'r pedwar contract yn uwch na'r trothwy ariannol ar gyfer contractau gwasanaeth a bu'n rhaid eu hysbysebu yn unol â rheoliadau Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU). Disgwylid y byddai gwerth y contract Addysg a Hamdden yn £200k/y flwyddyn h.y. £1.2 miliwn tros y 6 blynedd. Fe ddatganodd 25 o gontractwyr ddiddordeb yn y contractau gydag 18 ohonynt â diddordeb yn y contract Addysg a Hamdden.

Cyflwynwyd Holiaduron Cyn-Gymhwyso yn seiliedig ar y fformat OJEU gan y contractwyr hyn erbyn 6 Medi 2011.

Aseswyd yr holiaduron ar gyfer gwahanol feini prawf yn cynnwys sefyllfa Ariannol, Capasiti, Gallu, Iechyd a Diogelwch a'u sgorio yn unol â hynny. Yn dilyn, fe gafwyd rhestr fer o 6 chontractwr yn seiliedig ar y sgoriau a gafwyd. Roedd y chwe chontractwr am y contract Addysg a Hamdden wedi sgorio rhwng 93% a 98%. Mae manylion am yr holiaduron a'r broses sgorio wedi'u cynnwys yn Atodiad 1, **<u>mae'r atodiad hwn yn hollol gyfrinachol.</u>**

## 4.0 <u>Y BROSES DENDRO</u>

Anfonwyd dogfennau tendro i'r chwe chontractwr oedd ar y rhestr fer yn seiliedig ar y Contract Peirianneg ac Adeiladu ECC3, Contract Gwasanaeth Tymor penodol NEC3. Roedd y contractau yn seiliedig ar sail 80/20 Cost/Ansawdd, gyda'r asesiad ansawdd yn cael ei sgorio cyn agor y bid ariannol. Fe gyflwynodd tri chontractwr dendrau, a'r tendrwr a ddewiswyd oedd Glendale Grounds Maintenance Ltd o Chorley, Sir Gaerhirfryn gyda sgôr gyfansymiol o 94.77%, yn seiliedig ar sgôr ansawdd o 73.85% a sgôr ariannol o 100% gan mai hwy oedd y tendrwyr isaf. Fe sgoriodd contractwyr B a C 89.13% a 79.67% yn y drefn honno.

Mae'n siomedig nodi na wnaeth tri chontractwr gyflwyno tendr, a phan holwyd hwy fe ddywedodd un ei fod yn bryderus gyda'r goblygiadau oedd yn codi o TUPE.

Fe roddwyd y tendr i Glendale ar 17 Chwefror, 2012 ac mae'n seiliedig ar wasanaethu 5 Ysgol Uwchradd, 51 Ysgol Gynradd, Canolfannau Hamdden ac adeiladau cymunedol eraill.

Fel rhan o'u bid ansawdd mae'r contractwr wedi cadarnhau y bydd yn cyflogi'r 5 o weithredwyr a gyflogwyd yn flaenorol ar y contract, ac y mae hefyd wedi ymrwymo i brynu peiriannau newydd ar gyfer y contract newydd.

Oherwydd oedi gyda chael gwybodaeth TUPE gan Gyngor Gwynedd mae'r contractwr wedi cytuno i ohirio dyddiad cychwyn y contract hyd 1 Mai 2012.

## 5.0 <u>CASGLIADAU</u>

5.1 Mae'r proses dendro wedi dilyn y proses OJEU ar bob cam ac fe ddyfarnwyd y contract i'r contractwr wnaeth ddarparu'r contract gwerth gorau i'r awdurdod.

5.2 Fe ddyfarnwyd y contract o dan bwerau dirprwyedig y Pennaeth Gwasanaeth Addysg.

5.3 Bydd unrhyw newid yn nifer yr ysgolion a wasanaethir gan y contract yn torri'r contract a byddai i hynny oblygiadau ariannol i'r ysgolion ac i'r awdurdod.

5.4 Mae'n hanfodol bod y contract yn cael ei arolygu gan y Gwasanaeth Addysg ac/neu gan yr ysgolion.

5.5 Rhaid i'r awdurdod ystyried ffyrdd y gall helpu i gontractwyr lleol gynhyrchu dogfennau tendro o ansawdd a safon uchel er mwyn bod yn gystadleuol, tra hefyd yn cydymffurfio â rheoliadau pwrcasu cenedlaethol ac Ewropeaidd.

Adroddiad gan: Y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Rheoli Gwastraff) ar ran y Gwasanaeth Priffyrdd a Rheoli Gwastraff a'r Gwasanaeth Addysg.